| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 04 Hydref 2012 |
| **TEITL** | **CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2012 - 13** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2012 - 13. |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2012 - 13. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella |

## 1. Cyflwyniad:

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i osod amcanion gwella yn flynyddol a rhoi trefniadau effeithiol mewn lle er mwyn cwrdd â'r amcanion hynny.

1.2 Bodlonir y ddyletswydd hon yng Ngwynedd drwy gyhoeddi Cynllun Strategol. Mae'r Cynllun Strategol yn crynhoi'r amcanion gwella y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy ac yn disgrifio'r prosiectau a'r buddiannau fesul prosiect y bwriedir eu gwireddu yn ystod 2012 – 13 er mwyn sicrhau gwelliant mewn meysydd penodol.

## 2. Paratoi'r Cynllun Strategol:

2.1 Mae'r Cynllun Strategol yn adeiladu ar y gwaith cynllunio manwl a gwblhawyd yn ystod 2010 – 11 wrth baratoi hen Gynllun Tair Blynedd y Cyngor.

2.2 Yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym Mai 2012, manteisiodd y Cyngor newydd ar y cyfle i edrych ar y gwaith yma ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud ymhellach er mwyn gweithredu'r amcanion gwella. O ganlyniad, mae rhai agweddau o'r hen gynllun wedi eu hepgor o'r Cynllun Strategol newydd ac mae lefel yr uchelgais wedi newid ar rai o'r cynlluniau. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi adnabod 'Ymyraethau Allweddol' lle y mae am ddatblygu cynigion penodol a newydd er mwyn sicrhau gwelliannau mewn rhai meysydd.

2.3 Cyflwynwyd y Cynllun Strategol ar ei ffurf drafft i Aelodau'r Cyngor mewn gweithdy arbennig a gynhaliwyd yng Nghriccieth ar 17 Gorffennaf 2012. Gwnaed rhai newidiadau i gynnwys y ddogfen yn dilyn y gweithdy cyn ymgynghori'n eang arno gyda'r cyhoedd a phartneriaid. Amlygir rhai enghreifftiau o'r sylwadau sydd wedi dylanwadu ar y cynnwys isod:

- Cadarnhawyd bod gwir angen edrych ar y maes Ansawdd Addysg er mwyn dysgu o waith da ac ymestyn arfer da ar draws y Sir.
- Roedd cytundeb bod angen cymryd cam yn ôl i edrych ar lwyddiant ymdrechion y Cyngor a'i bartneriaid yn y maes Tai er mwyn cymryd stoc ac efallai addasu bwriadau'r Cyngor i'r dyfodol.
- Mae angen edrych ar y cyfan y mae'r Cyngor yn ei wneud yng nghyd-destun yr Agenda Gwledig. Mae angen edrych yn ofalus ar sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd yn benodol pan ddaw ffigurau'r Cyfrifiad am sefyllfa'r iaith.
- Mae angen cynnwys cydnabyddiaeth o rôl Cynghorwyr wrth weithredu ar y Cynllun yn y ddogfen.
- Mae angen edrych ar weithio mewn partneriaeth wrth edrych ar adnabod a chynllunio i gyflenwi anghenion gofal y Sir.
- Mae'n bwysig iawn cael y gweithlu i deimlo eu bod yn rhan o'r Cyngor.
- Mae angen bod yn rhagweithiol wrth ymateb i fater Rheoli Llifogydd a chynllunio ymlaen llaw.

2.4 Yn dilyn cwblhau newidiadau pellach ar ôl y gweithdy, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Strategol hyd at 28 Awst 2012. Cyhoeddwyd y Cynllun Strategol ar wefan y Cyngor a pharatowyd datganiad i'r wasg er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y ddogfen. Cafodd Aelodau, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Adran a phartneriaid allweddol y Cyngor hefyd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Gwnaed defnydd o rwydweithiau cymdeithasol (e.e. Twitter) er mwyn hyrwyddo'r ddogfen ac ennyn ymateb i'r ymgynghoriad.

2.5 Derbyniwyd 15 ymateb ffurfiol unigol i'r ddogfen yn ystod y cyfnod ymgynghori gan Aelodau, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Adran, y cyhoedd a phartneriaid y Cyngor (e.e. Prifysgol Bangor). Roedd yr ymatebion i gyd yn gadarnhaol iawn ac yn gefnogol o ymdrechion y Cyngor i sicrhau gwelliannau mewn meysydd penodol. Ond, mae'n werth nodi bod llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â materion y mae angen rhoi sylw iddynt wrth weithredu, naill ai trwy brosiect penodol neu mewn gwaith dydd i ddydd. Bwriedir mynd yn ôl at bawb sydd wedi cyflwyno sylwadau er mwyn diolch iddynt am eu sylwadau ac adrodd ar ba newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i gynnwys y cynllun yn sgil eu sylwadau.

## 3. Y Cynllun Strategol Terfynol:

3.1 Mae'r gwaith o addasu a newid cynnwys y Cynllun Strategol yn dilyn y Gweithdy Aelodau a'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gwblhau ac fe gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 26 Medi 2012. Cyflwynir y Cynllun Strategol terfynol, felly, yn **Atodiad 1**.

3.2 Mae rhai materion wedi disgyn allan o'r cynllun yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd a gwaith pellach ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn ystod y flwyddyn. Hyderir fod y newidiadau hyn yn cryfhau'r cynnwys ac yn gosod sail gadarn i weithredu'r amcanion gwella yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, mae'n dangos fod y Cyngor wedi ymateb yn rhagweithiol i'r sylwadau a gododd yn ystod y Gweithdy Aelodau a'r ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Paratoi Cynllun Strategol 2013 - 17:

4.1 Mae gwaith wedi cychwyn ar lunio Cynllun Strategol newydd y Cyngor. Bydd y Cynllun Strategol yn gosod allan nod, amcanion gwella a blaenoriaethau newydd y Cyngor am gyfnod o bedair blynedd o Ebrill 2013. Wrth gwrs, cynllun y Cyngor llawn yw'r Cynllun Strategol a bydd y Cynllun Strategol newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn er mwyn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

4.2 Un o'r prif sylwadau a gododd yn ystod y Gweithdy Aelodau yng Nghriccieth oedd yr angen i sicrhau fod holl Aelodau Etholedig y Cyngor yn derbyn cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at ddatblygiad y Cynllun Strategol newydd. O ganlyniad, bydd cyfres o gyfarfodydd yn cael eu trefnu a'u cynnal ar draws y Sir er mwyn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig, y cyhoedd a phartneriaid y Cyngor ddod ynghyd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol newydd. Bydd dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd yn cael eu hanfon at Aelodau mewn da bryd.

## 5. Argymhelliad:

**5.1 Gofynnir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2012 - 13 a rhoi'r hawl i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol er sicrhau cywirdeb.**